Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 07.08.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**

Rydym yn cefnogi diben ac egwyddorion cyffredinol rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Credwn fod gan ysgolion rôl hanfodol mewn cadw plant yn ddiogel. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad ar yr ymchwiliad annibynnol ar gam-drin plant yn rhywiol ac yn deall y gall ysgolion hefyd fod yn lleoedd ble gall niwed ddigwydd. Rydym yn croesawu'r holl gynigion a fydd yn cryfhau diogelu ac yn sicrhau ymagwedd gyson at wasanaethau sy'n gofalu am blant bregus.

At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r holl gynigion yn ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eglurder cynyddol ynglŷn â'r sefyllfa o fewn y cynnig ar gyfer ysgolion arbennig preswyl sy'n cynnig gofal seibiant tymor byr ar gyfer disgyblion i gynorthwyo teuluoedd neu ofal preswyl tymor byr fel rhan o'u darpariaeth medrau bywyd. Byddai'n fuddiol sicrhau bod darparu'r gwasanaethau hyn yn cael ei gwmpasu gan y rheoliadau hyn. Yn ychwanegol, byddai'r Rheoliadau yn elwa ar gael eu diweddaru i adlewyrchu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn llawn, er enghraifft trwy unrhyw gyfeiriad priodol at gynlluniau datblygu unigol.

At ei gilydd, mae'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â gofynion. Fodd bynnag, credwn y gellid cryfhau'r canllawiau fel a ganlyn:
Cynnwys y canlynol o fewn y "Rhestr o Dermau Allweddol" a ddefnyddir o fewn y canllawiau:
ADY (anghenion dysgu ychwanegol)
ADYTA (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru))
CGA (Cyngor y Gweithlu Addysg)
CDU (cynllun datblygu unigol)

Cynnwys dolen o fewn "Dolenni Defnyddiol" at:
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) | LLYW.CYMRU
Cyngor y Gweithlu Addysg
Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2023 (Drafft)

I gyd-fynd â Rheoliadau Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg, 2021, byddai'n fuddiol ychwanegu pwynt ychwanegol at y Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 2), sy'n gofyn i'r darparwr gwasanaeth ddangos ymrwymiad i'r strategaeth.

Byddai'n fuddiol cyfeirio at y newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) sy'n cyfeirio ar hyn o bryd at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl 2003. Mae cyfle i gywiro hyn gan fod Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon ar hyn o bryd. Byddai'n fuddiol rhoi mwy o ystyriaeth i sut mae rheoleiddio ysgolion annibynnol yn ychwanegu at reoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig lle maent yn ymwneud â'r un darparwr. Er enghraifft, byddai'n fuddiol cael disgwyliadau tebyg o ran llety sy'n croesi'r ddarpariaeth addysg a gofal. Byddai'n fuddiol cael mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n cymryd camau gorfodi ar gyfer ysgol annibynnol sydd hefyd yn darparu gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig - Llywodraeth Cymru neu AGC.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yn y blwch:

☐

Dywedwch wrthym ar ran pwy rydych yn ymateb. Er enghraifft, ai eich ymateb eich hun yw hwn, neu a yw'n cael ei anfon ar ran sefydliad?

***Cyflwynir yr ymateb hwn ar ran Estyn, Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru***

## Cwestiynau ar bennod 1: Rheoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023

| C1. A yw '*gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig',* fel y maent wedi'u diffinio, yn glir a phriodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☒ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br><br>Mae diffinio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig fel "darparu llety ynghyd â nyrsio neu ofal mewn ysgol arbennig yng Nghymru ar gyfer disgyblion yn yr ysgol" yn briodol ar gyfer ysgolion o fewn y sector a gynhelir, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn fod y diffiniadau o fewn y ddeddfwriaeth yn ddigon clir. Er enghraifft, nid yw'n glir p'un a fyddai'r ysgolion preswyl annibynnol presennol sydd bellach wedi'u cofrestru i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) i ddisgyblion ers ADYTA yn disgyn o dan y ddeddfwriaeth hon. A fyddai'n gliriach pe bai'r diffiniad cyfreithiol yn cael ei ddiwygio i ddweud: *"mae "ysgol arbennig" yn golygu ysgol, p'un a yw'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol ai peidio, sydd wedi'i threfnu'n arbennig* ***ac yn gyfan gwbl*** *i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer pobl ag anghenion dysgu ychwanegol"?* Neu gallai fod yn fuddiol rhoi eglurder am y mater penodol hwn yn y canllawiau statudol? Yn ychwanegol, nid ydym o'r farn fod sefyllfa nifer fach yr ysgolion arbennig sy'n darparu seibiant yn y tymor byr a/neu ofal yn y tymor byr fel rhan o'u darpariaeth medrau bywyd yn ddigon clir. | | | |

<u>Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023</u>

| RHAN 2: GOFYNION CYFFREDINOL AR DDARPARWYR GWASANAETHAU |
|---|

| C2. A yw’r gofynion yn y rhan hon o’r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig? Os ydych chi’n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

Rheoliadau: Esboniwch:

Mae’r rheoliadau drafft yn glir ac mae’r holl ofynion yn glir ac yn angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a medr digonol.

Mae gofyniad clir i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth y bydd gan ysgolion arbennig preswyl bolisïau addysgol ar waith eisoes. Cydnabyddir yn briodol fod angen i bolisïau fod yn gyson â diben y datganiad, ond gellid cryfhau’r ddogfen trwy ychwanegu mwy o wybodaeth am yr angen am gysondeb â’r ysgol, yn enwedig pan allai staff weithio ar draws y ddwy ddarpariaeth. Mae eglurder ynghylch diogelu o ran sefyllfa’r arweinwyr diogelu o fewn yr ysgol a’r ddarpariaeth breswyl yn hynod berthnasol. Byddai’n fuddiol sicrhau bod disgwyliadau cyson â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru).

A yw’r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Canllawiau: Esboniwch:

Ydyn

RHAN 3: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN Y CAMAU Y DYLID EU CYMRYD CYN CYTUNO I DDARPARU GOFAL A CHYMORTH

| C3. A yw’r gofynion yn y rhan hon o’r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☒ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

Rheoliadau: Esboniwch:

Mae Rhan 3 y rheoliadau yn cynnwys canllawiau priodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Mae hyn hefyd yn ystyried barn, dymuniadau a theimladau’r unigolyn, yn ogystal ag unrhyw addasiadau y gallai fod angen i’r darparwr gwasanaeth eu gwneud i ddiwallu eu hanghenion ychwanegol.

Byddai’n fuddiol ar gyfer y penderfyniad o dan baragraff 10(3) i ystyried y cynllun datblygu unigol neu’r datganiad o anghenion addysgol arbennig yn ystod y cyfnod pontio ADYTA. Dylid ymgorffori’r cynlluniau hyn yn y cynlluniau addysg personol a fydd yn ffurfio rhan o’r cynllun gofal a chymorth.

| |
|---|
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau cymorth yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |
| Canllawiau: Esboniwch:<br>Ydyn. At ei gilydd, mae'r canllawiau'n cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn yr agwedd hon ar y Rheoliadau. |

<table>
<tr><td colspan="4">RHAN 4: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN Y CAMAU Y DYLID EU CYMRYD WRTH DDECHRAU DARPARU GOFAL A CHYMORTH</td></tr>
<tr><td colspan="4">C4. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.</td></tr>
<tr><td>Cytuno ☐</td><td>Tueddu i gytuno ☒</td><td>Tueddu i anghytuno ☐</td><td>Anghytuno ☐</td></tr>
<tr><td colspan="4">Rheoliadau: Esboniwch:<br>Byddai'n ddefnyddiol cynnwys eglurder o fewn y Rheoliadau ar yr angen am gynllun personol ar gyfer gofal tymor byr neu ofal seibiant o fewn ysgol arbennig breswyl, p'un a yw'r unigolyn yn blentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal ai peidio.<br>Hefyd, byddai'n fuddiol cynnwys o fewn yr adran hon sut bydd y darparwr gwasanaeth yn cyfleu'r cynllun gyda'r unigolyn.</td></tr>
<tr><td colspan="4">A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau cymorth yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canllawiau: Esboniwch:<br>Gellid cryfhau'r canllawiau trwy ychwanegu mwy o wybodaeth am sut bydd y cynllun personol yn cael ei ddarparu i'r unigolyn. Mae'r canllawiau'n datgan ar hyn o bryd: "darperir copi o'r cynllun personol i'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth ac mewn iaith a fformat sy'n briodol i'w anghenion, ei oedran a lefel ei ddealltwriaeth. Os oes rheswm dros beidio â gwneud hynny, caiff hyn ei ddogfennu." Fodd bynnag, gallai hyn gynnwys datganiad mwy eglur ynglŷn ag ystyried anghenion cyfathrebu'r unigolyn. Er enghraifft, yr angen am gynllun personol sy'n hawdd ei ddarllen neu sydd â symbolau.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| RHAN 5: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN Y WYBODAETH Y DYLID EI DARPARU I UNIGOLION WRTH DDECHRAU DARPARU GOFAL A CHYMORTH |

| C5. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br>Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofynion priodol ar gyfer darparwyr o ran y wybodaeth y dylid ei darparu i unigolion. Mae hyn yn cynnwys cydnabod yn fuddiol fod angen darparu'r wybodaeth mewn modd sy'n briodol i alluogi'r unigolyn i ddeall. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br>Ydyn. Mae'r canllawiau'n briodol ac rydym yn croesawu'r cyfeiriad i ddefnyddio'r dull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio gan yr unigolyn. | | | |

| RHAN 6: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN SAFON Y GOFAL A'R CYMORTH Y DYLID EI DARPARU I GAEL MYNEDIAD AT WASANAETHAU IECHYD | | | |
|---|---|---|---|
| C6. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br>Ydyn. Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau yn glir ac yn briodol ar gyfer darparwyr. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br>Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth fuddiol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ynghylch anghenion i gynnal iechyd, datblygiad a lles parhaus. Mae ychwanegu enghreifftiau yn hynod ddefnyddiol.<br>Mae canllawiau o fewn Rheoliad 20 yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr gwasanaethau a byddant yn cryfhau'r cymorth y gallant ei gynnig i'r unigolyn. Gellid cryfhau'r canllawiau hyn | | | |

| |
|---|
| ymhellach trwy gyfeirio at yr arbenigwyr o oddi mewn i'r lleoliad addysg a allai fod wedi creu cynlluniau cyfathrebu gwerthfawr eisoes ar gyfer cymorth yn yr agwedd hon. |
| RHAN 7: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU - DIOGELU |
| C7. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

| |
|---|
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Ydyn – fodd bynnag, fel y soniwyd yn Rhan 2, efallai byddai'n ddefnyddiol datgan bod angen eglurder a chysondeb ar draws polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â diogelu o fewn y lleoliad preswyl a'r ysgol. Bydd yr holl bolisïau'n ymwneud â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, efallai bydd gwahanol swyddogion diogelu o fewn pob agwedd ar y ddarpariaeth. Byddai eglurder ar sicrhau bod staff yn ymwybodol o ba weithdrefnau fydd yn cael eu dilyn ar ba adeg yn fuddiol. |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>Ydyn – at ei gilydd, mae'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn yr agwedd hon. Fodd bynnag, credwn y byddai cyfeiriad penodol at y Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol[1] yn fuddiol o fewn y canllawiau ar gyfer Rheoliad 26. |

| |
|---|
| RHAN 8: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN STAFFIO |
| C8. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

[1] Llywodraeth Cymru 2022 Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol [Darllenwyd 31/07/2023]

| |
|---|
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Ydyn. Mae'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio yn glir a manwl. Rydym yn croesawu'r ffaith nad yw'n ofynnol i weithiwr proffesiynol cofrestredig yn 31 (10) gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym yn cydnabod, i nifer o ysgolion arbennig preswyl, y gallai staff weithio ar draws yr ysgol a'r ddarpariaeth breswyl ac felly ddal cofrestriad gyda chyrff proffesiynol fel Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>Ydyn. Mae'r canllawiau yn glir a phriodol. |
| RHAN 9: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN SAFLE, CYFLEUSTERAU AC OFFER |
| C9. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |

| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
|---|---|---|---|

| |
|---|
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Mae Rheoliadau 36 i 40 yn glir a phriodol. Byddai'n fuddiol gwirio cysondeb y disgwyliadau ynghylch llety gyda Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru). |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>At ei gilydd, mae'r canllawiau'n briodol ond gellid eu cryfhau trwy ychwanegu cyfeiriad mwy penodol at ystyried anghenion ychwanegol yr unigolyn. Er enghraifft, efallai byddai angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddyluniad a chynllun y llety, gan gynnwys ardaloedd cymunol, ar gyfer unigolyn sydd â PICA. |

| |
|---|
| RHAN 10: GOFYNION YCHWANEGOL AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN SAFLE – LLETY NEWYDD |
| C10. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. |

| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Ydyn – mae'r rhain yn cynrychioli Rheoliadau priodol ar gyfer y darparwyr hyn. Rydym yn cydnabod nad yw Rhan 10 yn berthnasol i safleoedd presennol ysgolion arbennig preswyl sy'n weithredol ar hyn o bryd. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>Mae'r canllawiau yn briodol, ar y cyfan; fodd bynnag, rydym o'r farn y gellid eu cryfhau trwy ychwanegu mwy o arweiniad ar yr hyn yw gofod awyr agored derbyniol. Er enghraifft, p'un a fyddai'r gofod awyr agored a ddefnyddir gan yr ysgol yn briodol i'w ddefnyddio pe bai gofod dynodedig o gwmpas y ddarpariaeth breswyl yn gyfyngedig. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| RHAN 11: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN CYFLENWADAU, HYLENDID, IECHYD A DIOGELWCH A MEDDYGINIAETHAU | | | |
| C11. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Mae Rhan 11 yn briodol i sicrhau bod cymorth ar waith ar gyfer yr unigolion. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>Mae'r canllawiau'n fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ynglŷn â'r rhan hon o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, gellid cryfhau Rheoliad 49 ymhellach trwy gynnwys risgiau iechyd a diogelwch o ganlyniad i anghenion yr unigolyn a chynlluniau rheoli risg. | | | |

| |
|---|
| RHAN 12: GOFYNION ERAILL AR DDARPARWYR GWASANAETHAU |

| C12. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br>Mae'r gofynion hyn yn briodol. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br>Mae'r canllawiau yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae canllawiau ar gyfer Rheoliad 51 yn cyfeirio at "Mae'r holl gofnodion yn ddiogel, yn gyfoes, ac wedi'u trefnu'n dda". Ar ddiwedd y paragraff, mae hyn yn cysylltu â Rheoliad 51(3)(f) a (g). Nid yw Rheoliad 51 (3) yn bodoli.<br>Gallai fod yn fuddiol cyfeirio'n eglur at fframwaith cyfreithiol GDPR o fewn y canllawiau. | | | |

| RHAN 13: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL AR GYFER SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CAEL EI REOLI'N EFFEITHIOL | | | |
|---|---|---|---|
| C13. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br>Mae'r gofynion ar unigolion cyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol yn glir. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br>At ei gilydd, mae'r canllawiau'n briodol, ond gallai canllawiau ar gyfer Rheoliad 59 elwa ar ychwanegu ystyriaeth fod gan y rheolwr brofiad mewn gweithio gydag anghenion dysgu penodol yr unigolion, yn ogystal â'r math o ofal a ddarperir. | | | |

| RHAN 14: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL AR GYFER SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CAEL EI ORUCHWYLIO'N EFFEITHIOL | | | |
|---|---|---|---|
| C14. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Ydyn. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>Byddai'r canllawiau'n elwa ar gynnwys sylwadau eglur am ystyried adroddiadau arolygu gan Estyn o'r ysgol arbennig gysylltiedig o fewn y canllawiau ar gyfer Rheoliad 65. | | | |

| RHAN 15: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL AR GYFER SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CYDYMFFURFIO | | | |
|---|---|---|---|
| C15. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br><br>Mae'r Rheoliadau'n rhoi canllawiau clir ar ystod o ofynion i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n barhaus. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br><br>Mae'r canllawiau'n briodol. Rydym yn croesawu'r canllawiau o ran sicrhau bod gan staff godau mynediad unigol i ddangos pwy sydd wedi gwneud diwygiadau i gofnodion. Byddai hyn yn hynod berthnasol pe bai staff o'r agweddau preswyl a'r agweddau addysgol ar y ddarpariaeth yn diweddaru cofnodion. | | | |

| |
|---|
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| RHAN 16: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL AR GYFER MONITRO, ADOLYGU A GWELLA ANSAWDD Y GWASANAETH A REOLEIDDIR | | | |
| C16. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br>Mae'r gofynion yn briodol. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Canllawiau: Esboniwch:<br>Gellir cryfhau'r canllawiau trwy gynnwys monitro canlyniad adroddiadau arolygu ar gyfer yr ysgol arbennig gan Estyn. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| RHAN 17: GOFYNION ERAILL AR UNIGOLION CYFRIFOL | | | |
| C17. A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Rheoliadau: Esboniwch:<br>Mae'r gofynion yn briodol. | | | |
| A yw'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |

| Canllawiau: Esboniwch: |
|---|
| Dd/b |

| RHAN 18: TRAMGWYDDAU | | | |
|---|---|---|---|
| C18. A yw'r ymagwedd a ddefnyddir o ran tramgwyddau o fewn y Rheoliadau drafft yn ddigonol a chymesur? Os na, esboniwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br>Rydym yn cytuno bod yr ymagwedd hon yn ddigonol a chymesur wrth ystyried y dysgwyr bregus o fewn y ddarpariaeth. | | | |

| RHAN 19: DARPARWYR GWASANAETHAU SYDD WEDI'U DIRWYN I BEN, AC ATI, NEU SYDD WEDI MARW | | | |
|---|---|---|---|
| C19. A yw'r gofynion a osodir ar bobl benodedig a chynrychiolwyr personol yn rhesymol? Os na, esboniwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br>Rydym yn cydnabod na fydd y rhan hon yn berthnasol i'r ysgolion preswyl presennol yng Nghymru, oherwydd gweithrediad awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rydym yn croesawu unrhyw ymgais i sicrhau'r rheoliadau at y dyfodol os bydd darparwyr annibynnol newydd. | | | |

| RHAN 20: DYNODI UNIGOLION CYFRIFOL GAN WEINIDOGION CYMRU | | | |
|---|---|---|---|
| C20. A yw'r amgylchiadau y gallai unigolion cyfrifol gael eu dynodi ynddynt gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a phriodol? Os na, esboniwch isod. | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br>Mae'r amgylchiadau ar gyfer dynodi unigolyn cyfrifol yn briodol. | | | |

| Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 | | | |
|---|---|---|---|
| C21. A yw'r ymagwedd arfaethedig (dogfen ymgynghori, paragraffau 46-51) o ran cofrestru ac amrywio cofrestriad, datganiadau blynyddol a hysbysiadau cosb, yn ddigonol a chymesur? | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br>Rydym yn cytuno bod yr ymagwedd hon yn ddigonol a chymesur. | | | |

| Cwestiynau Eraill |
|---|
| Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, sef: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol.<br>C22. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?<br>Nid oes disgwyl y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.<br>C23. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?<br>Nid oes disgwyl y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. |

| Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar<br>i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac<br>ii) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>C24. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?<br>Ar hyn o bryd, ni sonnir am gymorth a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y Rheoliadau a allai gael effaith andwyol ar unigolion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd.<br>I sicrhau bod y Rheoliadau yn cyd-fynd â Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg, 2021 Llywodraeth Cymru, byddai'n fuddiol ychwanegu pwynt ychwanegol at ofynion cyffredinol ar |
|---|

| |
|---|
| ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 2) yn gofyn i'r darparwr gwasanaeth ddangos ymrwymiad i'r strategaeth. |

| |
|---|
| Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.<br><br>Gellid cryfhau'r canllawiau ymhellach trwy egluro'r trefniadau ar draws ffiniau lle caiff unigolyn ei osod mewn darpariaeth addysgol breswyl yng Nghymru o awdurdod lleol yn Lloegr.<br><br>Byddai'n fuddiol cyfeirio at y newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) sy'n cyfeirio ar hyn o bryd at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl 2003. Mae cyfle i gywiro hyn gan fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon ar hyn o bryd hefyd. Byddai'n fuddiol ystyried ymhellach sut mae rheoleiddio ysgolion annibynnol yn ychwanegu at reoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig lle maent yn ymwneud â'r un darparwr. Er enghraifft, byddai'n fuddiol cael disgwyliadau tebyg o ran llety sy'n croesi'r ddarpariaeth addysg a gofal. Byddai'n fuddiol cael mwy o eglurder ynglŷn â phwy sy'n cymryd camau gorfodi ar gyfer ysgol annibynnol sydd hefyd yn darparu gwasanaethau preswyl ysgol arbennig – Llywodraeth Cymru neu AGC. |

## Cwestiynau ar Bennod 2: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017, fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau")

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cofrestru cartrefi gofal â phedair ystafell wely (sydd â'r fantais o osgoi'r gofynion yn Rhan 13, fel cael cyfleusterau *en-suite*) | | | |
| C25 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau i sicrhau bod gofynion Rhan 13 yn berthnasol lle caiff ystafelloedd ychwanegol (yn cynnwys ystafelloedd wedi'u trawsnewid) eu hychwanegu ar ôl y cofrestriad cychwynnol? | | | |
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br><br>Credwn y bydd cryfhau'r cynnig hwn yn helpu sicrhau bod yr adeiladau'n parhau i gynnig llety priodol ar gyfer yr unigolion preswyl. | | | |

| |
|---|
| Eithriad ar gyfer gwasanaethau gofal canolraddol sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol |

| |
|---|
| |
| C26 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio'r pŵer i lunio rheoliadau o dan adran 2(3) i sicrhau nad yw gwasanaethau Gofal Canolraddol awdurdodau lleol yn cael eu trin fel gwasanaeth cartref gofal er gwaethaf Atodlen 1 Deddf 2016? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

| |
|---|
| Esboniwch:<br>Ydym, rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth fod gwahaniaethau rhwng y ddau wasanaeth sy'n gofyn am reoliadau ar wahân. |

## Cwestiwn ar Bennod 3: Rheoliadau Drafft i ofyn am gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar y gofrestr darparwyr gwasanaethau.

| |
|---|
| Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 |
| C27 Ydych chi'n cytuno â'r gofynion yn y Rheoliadau drafft i'w gwneud yn ofyniad statudol i Weinidogion Cymru (AGC, yn ymarferol) gyhoeddi rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

| |
|---|
| Esboniwch:<br>Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allu cysylltu â gwasanaethau. Mewn ychydig iawn o achosion, gallai fod adegau pan mae unigolion o fewn darpariaeth breswyl a bod angen i'w lleoliad aros yn gyfrinachol am resymau diogelu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl rhannu gwybodaeth gyswllt heb beryglu hyn. Dylid mynd i'r afael â hyn yn briodol yn yr asesiad o'r effaith ar breifatrwydd. |

## Cwestiwn ar Bennod 4: Diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau Statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ar Fodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth (fersiwn 2, Ebrill 2019).

| |
|---|
| Canllawiau Statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Fodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth |

| C28 Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau i'r Canllawiau Statudol ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Fodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth? | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☒ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Esboniwch:<br><br>Croesewir cynnwys hyn o fewn canllawiau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ochr yn ochr â'r cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, mae sicrhau bod yr holl derminoleg a deddfwriaeth yn gyfoes yn hanfodol i sicrhau bod y canllawiau'n addas at eu diben. | | | |